


Goblygiadau ariannol y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Mawrth 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau ariannol y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Mawrth 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn [Rheolau Sefydlog](#) 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith [craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru](#).

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae [goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru](#), fel y nodir yn [Neddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#).

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer [datganoli pwerau cyllidol i Gymru](#) a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd [graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad](#).

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AC

Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC

Plaid Cymru
Ynys Mon



Alun Davies AM

Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Neil Hamilton AC

UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Rhianon Passmore AM

Llafur Cymru
Islwyn



Nick Ramsay AC

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Cynnwys

Casgliad ac Argymhellion.....	5
Cyflwyniad	6
Cefndir y Bil.....	6
1. Goblygiadau ariannol y Bil.....	9
Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol	10
Safbwynt y Pwyllgor.....	11
Rhan 1: Hygyrchedd cyfraith Cymru.....	12
Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol	12
Safbwynt y Pwyllgor.....	14
Rhan 2 a 3: Dehongli a gweithredu cyfraith Cymru - Costau trosiannol.....	15
Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol	15
Safbwynt y Pwyllgor.....	16

Argymhellion a Chasgliad

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddadansoddi a nodi symiau'r arbedion effeithlonrwydd yn y Bil, a nodir fel sbardun allweddol i weithredu'r ddeddfwriaeth, a'i bod yn cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig..... Tudalen 11

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gweithgarwch adolygu perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn ystyried y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o ran adnoddau yn sgîl cyflawni amcanion y Bil..... Tudalen 11

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau ariannol ar gyfer staff polisi nad ydynt wedi'u nodi fel costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a'r costau i gyrff eraill. Dylid cynnwys yr wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Tudalen 15

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid am sut y mae'n bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Bil, o'i ddeddfu..... Tudalen 16

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am amseriad y Bil hwn pan fo cymaint o ansicrwydd yn parhau mewn cysylltiad â Brexit. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo adnoddau ar gyfer y Bil hwn ar adeg pan fydd angen adnoddau deddfwriaethol sylweddol i ymdrin â chanlyniad Brexit. Mae'r Pwyllgor, fodd bynnag, yn derbyn y bydd rhoi'r Bil ar waith o fudd wrth ystyried unrhyw newidiadau deddfwriaethol oherwydd Brexit..... Tudalen 11

Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd **Bil Deddfwriaeth (Cymru)** (y Bil) a'r **Memorandwm Esboniadol** gan Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol, ar 3 Rhagfyr 2018.

2. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi:

“Diben y Bil Deddfwriaeth (Cymru) yw gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, clir a syml i'w defnyddio. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, a'i gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.”¹

3. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil gan y Cwnsler Cyffredinol ar **17 Ionawr 2019**.

4. Y **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** sy'n gwneud gwaith craffu ar bolisi'r Bil drafft.

Cefndir y Bil

5. Datblygwyd y Bil yn dilyn ymchwiliadau ac ymgynghoriadau niferus, gan gynnwys adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol blaenorol, **Deddfu yng Nghymru** ym mis Hydref 2015, a wnaeth argymhellion yn ymwneud ag ansawdd, paratoi a chraffu ar ddeddfwriaeth. Yn benodol, argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer cydgrynhoi cyfraith Cymru, ac y dylai Cwnsler Cyffredinol weithio tuag at lunio Deddf Dehongli ar gyfer Cymru a fyddai ar wahân i **Ddeddf Dehongli 1978** (Deddf 1978).

6. Yn 2016 cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad sef, **Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru**, a oedd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dilyn polisi o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yng Nghymru. Gwnaeth nifer o argymhellion yn ymwneud â'r broses o gydgrynhoi a chodeiddio, gan gynnwys y dylai fod yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno rhaglen godeiddio, ac adrodd ar gynnydd i'r Cynulliad.

7. Mae pedair rhan i'r Bil, sef:

¹Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 9

- Rhan 1 sy'n gosod dyletswyddau ar y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â hygyrchedd cyfraith Cymru; a
- Rhan 2 sy'n gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch dehongli a gweithredu'r Bil ei hun a deddfwriaeth Cymru a ddeddfir ar ôl i Ran 2 ddod i rym.
- Rhan 3 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau yn neddfwriaeth Cymru, drwy ddisodli dyddiad pan fydd yn hysbys. Mae Rhan 3 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffurfiau (rheoliadau, rheolau a gorchmynion) ac mae'n darparu ar gyfer y cyfuniad o is-ddeddfwriaeth sy'n destun gweithdrefnau gwahanol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan sicrhau bod y weithdrefn fwyaf llym yn gymwys.
- Rhan 4 sy'n cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth a darpariaeth arall ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

8. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai pwrpas y Bil yw:

“sicrhau bod cyfraith Cymru dros gyfnod yn dod yn fwy hygyrch, yn haws i'w ddefnyddio ac yn gliriach i bobl sydd yn ei ddefnyddio mewn cyd-destun proffesiynol—neu'r uchelgais yw ei fod e'n hygyrch i bobl sy'n ei ddefnyddio fe fel dinasyddion Cymreig.”²

9. Ychwanegodd:

“O safbwynt arian ac ati, o safbwynt gwerth am arian, un o'r prif ysgogiadau i hyn yw effeithlonrwydd. Ar hyn o bryd, mae'r llyfr statud yn gymhleth iawn yn nhermau deddfau cynradd, sylfaenol, a deddfau eilradd, ac mae darganfod y gyfraith yn anodd, ac mae deall y gyfraith pan rŷch chi yn ei darganfod hi hefyd yn anodd.”³

10. Mewn perthynas ag amseriad y Bil, yn enwedig o gofio'r ansicrwydd y mae Cymru yn ei wynebu yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

“Mae Comisiwn y Gyfraith wedi bod yn ein hannog ni i wneud hyn am sbel, oherwydd cymhlethdod y sefyllfa sydd gyda ni. Roedd y Bil wedi ei

² Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 17 Ionawr 2019

³ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 17 Ionawr 2019

seilio ar y gwaith maen nhw wedi'i wneud, felly roedd gyda ni adnodd wedi'i gryn ddatblygu yn sgil y gwaith maen nhw wedi'i wneud, a hefyd, os edrychwch chi ar gyd-destun Brexit ar hyn o bryd—hynny yw, efallai'r brif ffynhonnell o bwysau ar bethau'n gyffredinol ar hyn o bryd—un o'r pethau a ddaw yn sgil Brexit, rwy'n credu, yw mwy o gymhlethdod yn y gyfraith, yn hytrach na llai, ac felly mae'r egwyddorion sydd yn y Bil hwn yn gweithio yn erbyn hynny ac yn ein hannog ni i sicrhau, hyd yn oed yn sgil hynny, fod hygyrchedd y gyfraith ar dop ein rhestr ni.”⁴

⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 17 Ionawr 2019

1. Goblygiadau ariannol y Bil

11. Mae cost gyffredinol y Bil yn dod o fewn yr amrediad o £2.962 miliwn i £2.984 miliwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu £2.942 miliwn o ran costau rheolaidd ac amrywiaeth o rhwng £20,000 a £42,000 ar gyfer costau trosiannol. Mae'r costau wedi'u gwerthuso dros bum mlynedd (2019-20 i 2025-26).⁵

12. Awgrymai'r **Asesiad Effaith** a oedd yn cyd-fynd ag adroddiad Comisiwn y Gyfraith y gellid gwireddu buddion o £23.75 miliwn bob blwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys:

“On-going benefits: Annual savings from reduced research by legal practitioners: £23.56m [best estimate]; Improved capacity for legal access by non-legal civil society [time savings]: £0.19m [best estimate].”⁶

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Amcangyfrifodd Comisiwn y Gyfraith y gallai'r manteision sy'n deillio o roi eu hargymhellion ar waith ddod i ryw £24 miliwn y flwyddyn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio cadarnhau'r dadansoddiad hwn, ac nid yw'n cymhwyso'r ffigur hwn fel rhan o'i ddadansoddiad budd ei hun yn yr RIA hwn. Ond mae'r ffigur, o leiaf, yn fesuriad ariannol o'r amser a allai gael ei arbed ac mae'n fynegiant, o leiaf, ynghylch i ba raddau y gellid defnyddio adnoddau i wneud pethau eraill.”⁷

14. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu, drwy sicrhau hygyrchedd cyfraith Cymru yn yr hirdymor, y byddai'r Bil yn dod â manteision sylweddol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru ac i ddinasyddion preifat drwy “ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio'r gyfraith yn effeithlon ac yn effeithiol”. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn awgrymu y bydd yn hybu rhagor o hyder yn y gyfraith ar gyfer busnesau, Llywodraeth a dinasyddion, “gan arwain at benderfyniadau mwy hyderus ac effeithlon ar draws pob rhan o'r gymdeithas ddinesig a'r sector preifat”.⁸

⁵Y Memorandwm Esboniadol

⁶Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, **Ffurfi a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru**

⁷Y Memorandwm Esboniadol

⁸Y Memorandwm Esboniadol

Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol

15. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol, er mwyn mesur manteision y Bil, ei fod wedi defnyddio Asesiad Effaith Comisiwn y Gyfraith fel “man cychwyn”. Fodd bynnag, y prif sbardun ar gyfer y Bil oedd cyfiawnder cymdeithasol a sicrhau “bod pobl yn gallu darganfod y gyfraith, yn enwedig mewn cyd-destun lle mae legal aid ac ati'n cael ei gwtogi.”⁹.

16. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai unrhyw sefydliad sy'n defnyddio'r llyfr statud yn elwa o'r ddeddfwriaeth hon oherwydd “mae gwastraff amser i bobl wrth ddarganfod y gyfraith—amser gallan nhw fod yn ei ddefnyddio yn gwneud pethau mwy adeiladol”.¹⁰

17. Aeth ymlaen i esbonio, o gofio cymhlethdod setliad datganoli Cymru “mae gyda ni sialens benodol yma yng Nghymru”. Ychwanegodd:

“Felly, mae gwastraff amser i bobl wrth ddarganfod y gyfraith—amser gallan nhw fod yn ei ddefnyddio yn gwneud pethau mwy adeiladol na ffeindio mas lle mae pethau.”¹¹

18. Cododd y Pwyllgor bryderon y gallai'r adnoddau deddfwriaethol sydd ynghlwm ag amcanion y Bil effeithio ar adnoddau o ran materion sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE. Eglurodd y Cwnsler Cyffredinol fod y Bil yn bwysig wrth fynd i'r afael â chymhlethdodau deddfwriaethol posibl sy'n deillio o ymadael â'r UE. Dywedodd y canlynol:

“The benefits to this can accrue as a consequence of some of the challenges we face in Brexit. Brexit will complexify the law even further, and this is a programme that enables us to make the law more straightforward in the longer term.”¹²

19. O ran adolygiad ôl-weithredol o'r ddeddfwriaeth, mae'r Bil yn cynnwys mecanweithiau adolygu. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol:

“Well, there are two aspects to that. The Bill itself is a Bill to keep the law under review. So, that includes within it a review of the efficacy of the Bill in delivering that outcome, essentially. And the benefit—well, there are many benefits, but one of the benefits of having a duty is that it

⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 14 - 17 Ionawr 2019

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 19 - 17 Ionawr 2019

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 9 - 17 Ionawr 2019

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 32 - 17 Ionawr 2019

provides the ability for scrutiny, obviously, and accountability and review. And the financial assumptions currently envisage three reports over the course of an Assembly term—formal reports to the Assembly on where we are with the programme, which will obviously have been published. But I envisage perhaps more frequent, you know, oral reports in the Chamber, or statements, and opportunities for Members to hold the Counsel General to account.”¹³

Safbwynt y Pwyllgor

20. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad yw arbedion cost yn rheswm am gyflwyno'r Bil, mae effeithlonrwydd yn y system gyfreithiol yn cael ei nodi'n benodol fel budd a rheswm dros gyflwyno'r ddeddfwriaeth. Oherwydd bod arbedion effeithlonrwydd mor amlwg yn y rhesymeg dros gyflwyno'r Bil, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld rhagor o waith dadansoddi, naill ai i ychwanegu at waith Comisiwn y Gyfraith yn y maes hwn neu'n annibynnol arno.

21. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd cynnal adolygiad ar ôl rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith, wrth sicrhau bod amcanion y ddeddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â disgwyliadau. Mae'r Pwyllgor yn falch o weld mecanweithiau yn y Bil sy'n caniatáu i'w gweithrediad gael ei adolygu'n rheolaidd. Dylai'r adolygiad hwn ystyried adnoddau a goblygiadau ariannol, i sicrhau y darperir gwerth am arian.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am amseriad y Bil hwn pan fo cymaint o ansicrwydd yn parhau mewn cysylltiad â Brexit. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo adnoddau ar gyfer y Bil hwn ar adeg pan fydd angen adnoddau deddfwriaethol sylweddol i ymdrin â chanlyniad Brexit. Mae'r Pwyllgor, fodd bynnag, yn derbyn y bydd rhoi'r Bil ar waith o fudd wrth ystyried unrhyw newidiadau deddfwriaethol oherwydd Brexit.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddadansoddi a nodi symiau'r arbedion effeithlonrwydd yn y Bil, a nodir fel sbardun allweddol i weithredu'r ddeddfwriaeth, a'i bod yn cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gweithgarwch adolygu perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn ystyried y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o ran adnoddau yn sgîl cyflawni amcanion y Bil.

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 135 - 17 Ionawr 2019

Rhan 1: Hygyrchedd cyfraith Cymru

22. Mae'r costau yn y Rhan hon o'r Bil yn gysylltiedig â datblygu pob rhaglen a gweithredu'r rhaglen(ni) hynny. Y costau mwyaf arwyddocaol o ran y Bil yw'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â darparu'r rhaglen hygyrchedd (£588,000 y flwyddyn, sy'n £2.942 miliwn dros bum mlynedd).

23. Mae'r gost flynyddol o £588,000 yn cynnwys:

- adnoddau drafftio (sy'n gyfwerth â phedwar Cwnsler Deddfwriaethol). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes modd "ymgorffori gwaith ar y raddfa hon yn y busnes arferol ac fe fyddai'n gofyn am adnoddau penodedig". Byddai'r tîm hwn yn darparu bil cydgrynhoi oddeutu unwaith y flwyddyn am bum mlynedd - £377,000;
- adnoddau cyfieithu (sy'n gyfwerth â dau Gyfieithydd Deddfwriaethol) - £93,000;
- un cyflogai band rheoli 2, dau gyflogai band rheoli 3 i ddarparu'r rhaglen, a allai gynnwys datblygu gwefan Cyfraith Cymru, cyhoeddi y gyfraith ymhellach a defnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg yn y dasg honno - £ 119,000.

Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol

24. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol fod yr unig swyddogaethau a osodir gan y Bil wedi'u nodi yn Rhan 1, a byddent oll yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd:

"Part 2 obviously imposes obligations, or affects other devolved authorities rather, but in fact that doesn't impose specific duties on them to act in a particular way. So, in that sense, I don't think Part 2 does that either."¹⁴

25. Y gost barhaus fwyaf yw darparu adnoddau ar gyfer y tîm cyngor deddfwriaethol (£377,000). Holodd y Pwyllgor y Cwnsler Cyffredinol ynglŷn â sut y byddai'n sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y Bil hwn, o gofio'r pwysau sydd ar staff cyfreithiol Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin ag ymadael â'r UE. Dywedodd y canlynol:

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 62 - 17 Ionawr 2019

“The purpose of the duty in the first part of the Bill is, effectively, to make sure that resources are deployed to this task.”¹⁵

26. Parhaodd:

“Well, the point of committing the resources is to give sufficient visibility to be able to recruit legislative counsel to do the work, essentially. So, that is the point of getting the visibility on the resource. I completely understand your perspective, which is to say, on the existing staff base, this is not achievable, and that’s correct. It’s achievable on a piecemeal basis, but that is the sort of thing that you would see, perhaps, being, for obvious reasons, dislocated by Brexit. But the point is to be able to commit to taking on legislative counsel to do that.”¹⁶

27. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd y byddai’r tîm gweinyddol yn cael rhywfaint o fewnbwn a chymorth gan gydweithwyr polisi a chyfreithwyr ymgynghorol Llywodraeth Cymru, ond ni nodwyd unrhyw gostau ychwanegol mewn perthynas â hyn.¹⁷

28. Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd y gofyniad o ran adnoddau a roddwyd gan dimau eraill o fewn Llywodraeth Cymru wedi cael ei nodi fel cost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

“So, the principal resource challenge is going to be a drafting resource challenge. That’s the large part of it, given the nature of the work. The point of it, consolidation-wise, is not to be changing the law. That’s the basic point. There’ll be a set of Standing Orders, which enable the Assembly to scrutinise, but in a different way than the Assembly would scrutinise a reform Bill. So, the large part of the work will be done on that basis, but there obviously will be work that policy colleagues will need to engage with, but that’s in the nature of any piece of legislation that is being developed, essentially.”¹⁸

29. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd y gallai fod cost i gyrff y sector preifat o ran deall y gyfraith newydd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi’i nodi fel cost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mewn cysylltiad â’r pwynt hwn dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 27 - 17 Ionawr 2019

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 30 - 17 Ionawr 2019

¹⁷Y Memorandwm Esboniadol

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 116 - 17 Ionawr 2019

“It would be a one-off cost in that sense of learning what the new law says, but it’s the sort of thing that you would expect to be a very minor part of anyone’s day job, in a sense. You know, ‘What does this say? How does that relate to legislation being passed in future?’ It’s just being current in the law, essentially, so, in that sense, it’s de minimis, I’d say.”¹⁹

30. O ran yr amrywiaeth o £20,000 yng nghost cyffredinol y Bil, cadarnhaodd y swyddog a oedd gyda’r Cwnsler Cyffredinol:

“The range cost relates to the variables in laying the programme, reporting on the programme and revising the programme, which depends on how the Assembly scrutinises the Bill, and whether a revision is necessary. The precise costs relate to the estimated costs of staffing the legislative counsel—the translators and the administrative staff—based on a speculative programme of four to five Bills. The precise details of the programme would be for each future Assembly.”²⁰

31. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

“What this does, clearly, is to set the obligation to have a programme, but the nature and content and, frankly, the scale of ambition of that programme are matters for the Government of the day looking at the other priorities, essentially.”²¹

Safbwynt y Pwyllgor

32. Mae’r Pwyllgor yn nodi bod y rhan fwyaf o’r costau sy’n gysylltiedig â’r Bil yn ymwneud ag adnodd deddfwriaethol sy’n gysylltiedig â’r gweithgareddau yn Rhan 1 y Bil. Er bod y Pwyllgor yn derbyn ei bod yn anodd ystyried costau pob agwedd ar fân effeithiau’r ddeddfwriaeth ar staff Llywodraeth Cymru, hoffai ddeall y goblygiadau i staff eraill Llywodraeth Cymru yn fwy manwl.

33. Mae’r Pwyllgor yn nodi, o glywed tystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol, ei bod yn debygol y bydd effaith ar gyrff eraill, gan gynnwys sefydliadau’r sector preifat o ran dysgu’r hyn y mae’r gyfraith newydd yn ei ddweud, a’r Cynulliad, o ran sefydlu Rheol Sefydlog newydd i graffu ar Filiau cydgrynhoi. Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol y gallai hyn arwain at gostau ychwanegol i’r gyrff hyn, ac er bod y Cwnsler Cyffredinol wedi cyfeirio at gostau bach, “de minimis”, ar gyfer gyrff preifat, ychydig iawn o dystiolaeth a dadansoddiad sydd o hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 65 - 17 Ionawr 2019

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 76 - 17 Ionawr 2019

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 78 - 17 Ionawr 2019

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau ariannol ar gyfer staff polisi nad ydynt wedi'u nodi fel costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a'r costau i gyrff eraill. Dylid cynnwys yr wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rhan 2 a 3: Dehongli a gweithredu cyfraith Cymru - Costau trosiannol

34. Mae'n fwriad i'r Bil ddatblygu darpariaeth ddehongli ddwyieithog newydd a modern a fydd yn berthnasol i gyfraith Cymru. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Byddai'r Bil, o'i deddfu, nid yn unig yn mynd i'r afael â'r diffyg yn y Cymraeg o ddiffiniadau o eiriau ac ymadroddion cyffredin a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978, ond byddai hefyd yn cynnwys rheolau ehangach ar ddehongli a gweithredu'r gyfraith sy'n debyg i'r rhai yn Neddf 1978.”²²

35. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

- Paratoi a darparu canllawiau - Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu a chyhoeddi canllawiau anstatudol i'r rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth, a byddai hyn yn cyd-daro â'r darpariaethau dehongli sy'n dod i rym (a fwriedir ar gyfer 1 Ionawr 2020). Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo cost o £5,000 yn 2019-2020 ac yn amsugno hwn o fewn ei hadnoddau presennol.
- Hysbysu'r rhai sy'n gweinyddu'r gyfraith am y newidiadau: Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod rhanddeiliaid a defnyddwyr yn ymwybodol o'r newid a fydd yn deillio yn sgîl y Bil.

Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol

36. O ran y gost drosiannol o £5,000, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

“There is a modest figure, which is really around providing guidance to professionals, essentially, about what Part 2 does. I'm not envisaging the public at large being informed differently, particularly, from that. I think the key point is to make sure that the people who operate the provisions—and these are default provisions in law, really, aren't they—the professionals and people giving legal advice, understand the changes, and that's really the target.”

²²Y Memorandwm Esboniadol

37. Dywedodd y swyddog a oedd gyda'r Cwnsler Cyffredinol y byddai swyddogaethau'r tîm gweinyddol yn cynnwys datblygu a chynnal gwefan Cyfraith Cymru, a gweithio gyda yr Archifau Gwladol i ddiweddarau legislation.gov.uk. Ychwanegodd:

“In the past, the Counsel General has spoken about the problems of the fact that the Welsh language text on that website is not as up to date, in many forms, as the English language text. So, it's about working with them to ensure the Welsh legislation is edited and updated. And, then, in the Counsel General's written statement towards the end of last year, he talked about organising the existing law by subject area, and that would be a key part of the work of this administration team, making sure that legislation.gov.uk is organised by subject in relation to the law applicable in Wales.”²³

38. O ran defnyddio technoleg i gyflawni amcanion y Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

“When I appeared before the Constitutional and Legislative Affairs Committee, I spoke briefly about the discussions we've been having with Google and with other technology providers just to understand the range of future options in some of this work. Obviously, it's important to make sure that the resources that we deploy today are, as far as any of us can gauge, fit for the future.”²⁴

Safbwynt y Pwyllgor

39. Mae'r Pwyllgor yn nodi cost trosiannol o £5,000 a gaiff ei ddefnyddio i roi arweiniad i weithwyr proffesiynol ar effaith y Bil. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes dim gweithgareddau cyhoeddusrwydd eraill wedi'u cynnwys yn y Bil, ac mae'n rhagweld y byddai angen ymgysylltiad ehangach â'r cyhoedd i gyflawni'r manteision y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar adeg pan fo cymorth cyfreithiol yn cael ei gwtogi, ac efallai y bydd rhagor o angen i'r cyhoedd gael mynediad at gyfreithiau Cymru.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid am sut y mae'n bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Bil, o'i ddeddfu.

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 107 – 17 Ionawr 2019

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 110 – 17 Ionawr 2019